**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD LLUN, 21 TACHWEDD 2022**

**Aelodau'r Cabinet:**

Cynghorwyr: S.K.Hunt (Cadeirydd) , S.A.Knoyle, N.Jenkins, D.M.Peters, J.Hurley, S.Harris, A.Llewelyn, W.F.Griffiths a/ac S.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

N.Pearce, C.Griffiths, K.Jones, A.Jarrett, M.Shaw, J.Woodman-Ralph, C.John, H.Jones a/ac A.Thomas

**Gwahoddedigion:**

Cynghorydd P. Rogers (Cadeirydd Craffu)

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

4. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

5. **<u>CYFLWYNO PORTHLADDOEDD RHYDD</u>**

Nododd yr Aelodau'r gwall yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, mewn perthynas â Thudalen 10. Roedd yn dweud *"Mae hyn yn cynnwys £21 filiwn (neu fwy o bosib)"* a dylai fod wedi dweud £25 miliwn.

**<u>Penderfyniadau:</u>**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Sgrinio Integredig:

1. Bod cais am Borthladd Rhydd sy'n cwmpasu porthladd Port Talbot a phorthladd Aberdaugleddau a'r ardaloedd amgylchynol, yn y ffurflen sy'n atodedig yn Atodiad B o'r adroddiad a ddosbarthwyd, yn amodol ar unrhyw amrywiadau a all fod yn angenrheidiol cyn iddi gael ei gyflwyno, yn cael ei gymeradwyo.

2. Bod y Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, yn cael awdurdod dirprwyedig i gytuno ar ddiwygiadau i'r cais cyn ei gyflwyno'n derfynol i Lywodraeth Cymru.

3. Bod yr enwebiad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot fod yn gorff cyfrifol ar gyfer y fframwaith arfaethedig, yn cael ei gymeradwyo.

4. Bod Arweinydd y Cyngor yn cyflwyno llythyr i Lywodraeth Cymru sy'n cyfleu cefnogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar gyfer Porthladd Rhydd sy'n cwmpasu porthladd Port Talbot a phorthladd Aberdaugleddau.

5. Bod y Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd yn cymryd camau yn ôl yr angen i hyrwyddo'r cais ar ôl ei gyflwyno hyd at yr adeg y ceir penderfyniad y Gweinidogion ar lwyddiant y cais neu fel arall.

**<u>Rheswm dros y Penderfyniad:</u>**

Gallai cyflawni statws Porthladd Rhydd weithredu fel catalydd ar gyfer twf economaidd sylweddol yn yr ardal a'r rhanbarth ehangach sy'n gysylltiedig â'r sector ffermydd gwynt ar y môr sy'n dod i'r amlwg a'r agenda ynni adenwyddadwy ehangach. Bydd y cynnig hefyd yn cefnogi gwaith i ddatgarboneiddio diwydiant, tai a thrafnidiaeth yn lleol ac yn rhanbarthol gan helpu i gyrraedd targedau carbon sero net. Bydd twf economaidd gwyrdd yn helpu i fynd i'r afael â materion strwythurol tlodi

ac amddifadedd yn yr economi leol a rhanbarthol gan ysgogi'r gadwyn gyflenwi leol a chynyddu sgiliau a chymwysterau'r boblogaeth breswyl.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith.

## 6. EITEMAU BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

## 7. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

Nid oedd y drafodaeth na'r cwestiynau'n cynnwys unrhyw ran o'r wybodaeth eithriedig felly nid oedd gofyniad i benderfynu ynghylch cynnal Sesiwn Breifat .

**CADEIRYDD**